

# Codi calon plwyf dan glo

*Meriel Ralphs yn adrodd hanes Te Mefus ar ei newydd wedd ym Mhenrhyn-coch*



Yn raddol roedd y cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig gyda'r clo mawr oherwydd Covid-19 yn cael eu llacio. Ond y cwestiwn ym Mhenrhyn-coch oedd a fyddai hyn yn digwydd mewn pryd i gynnal prif fenter codi arian y flwyddyn sef y Te Mefus.

Roedd y cyfnod dan glo wedi bod fel trwmgwsg ac roedd angen rhywbeth i godi calon y plwyf. Ers yn agos i chwarter canrif bu'r Te Mefus yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr y plwyf. Roedd hefyd wedi dod yn ddigwyddiad pwysig yn y gymuned. Ond doedd hi ddim yn bosib i dorf ddod at ei gilydd ddechrau Gorffennaf, felly beth oedden ni'n mynd i'w wneud? Wrth feddwl tu fas i'r bocs fe wnaethon ni benderfynu rhoi'r Te Mefus mewn bocs! Dyma greu Te Mefus Têc-awe S. Ioan Penrhyn-coch.

Trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fe hysbysebwyd y bwriad ar dudalen Facebook yr eglwys. Pwysleisiwyd taw dim ond hyn a hyn o focs fyddai ar gael ac mae'r cyntaf i'r felin oedd hi. Yr oedd yr ymateb yn anhygoel. Gwerthwyd y cyfan o fewn pedair awr ar hugain.

O'r diwedd roedd gan y plwyf rywbeth i edrych ymlaen ato. Dywedodd un pa mor braf oedd hi i fedru "rhoi rhywbeth yn y calendr sydd yn edrych mor wag heblaw am benblwyddi a digwyddiadau sydd wedi'u gohirio."

Roedd y rhai oedd wedi llwyddo i archebu Te Mefus Têc-awe yn medru eu casglu o faes parcio Neuadd yr Eglwys, gan gadw at reoliadau pellhau cymdeithasol wrth gwrs. I'r rhai dros eu 70 oed neu yn cysgodi yr oedden ni'n cynnig dosbarthiad at y drws.

Fe roddwyd hefyd Te Mefus Têc-awe yn rhoddion i'n siop a'n garej leol er mwyn medru diolch iddyn nhw fel plwyf am eu hymdrechion fel 'gweithwyr allweddol' mewn cyfnod anodd.

Daeth gweld dyn wedi'i wisgo fel mefusen yn dosbarthu Te Mefus Têc-awe â gwên i wyneb llawer ar y dydd ac fe godwyd calon plwyf dan glo!